OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 197 (Cy.40)

ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Eiddo Heb ei Feddiannu) (Cymru) (Diwygio) 2011

Gwnaed - - - -	*24 Ionawr 2011*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*2 Chwefror 2011*
Yn dod i rym - -	*28 Chwefror 2011*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 45(1)(d), (9) a 146(6) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Eiddo Heb ei Feddiannu) (Cymru) (Diwygio) 2011 a deuant i rym ar 28 Chwefror 2011.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru ar gyfer blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar ac ar ôl 1 Ebrill 2011.

Eiddo sy'n atebol am ardrethi eiddo heb ei feddiannu

2. Yn rheoliad 4(e) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Eiddo Heb ei Feddiannu) (Cymru) 2008(**3**), yn lle "£2,200" rhodder "£2,600".

(**1**) 1988 p.41.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol a geir yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672, erthygl 2, Atodlen 1). Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno, mae'r swyddogaethau hynny wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru.

(**3**) O.S. 2008/2499 (Cy.217).